*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.*

# Deddf Trwyddedu 2003 - Hysbysiad Cyhoeddus o Gais am Drwydded Safle (o dan adran 17)

**Enw'r Ymgeisydd: Canal Quarter PLH Limited**

**Enw a Chyfeiriad Post y Safle: Parti Stryd Mardi Gras Clwb Nos Pulse, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2DW.**

**Datganiad o'r Gweithgareddau Trwyddedadwy Perthnasol y cynigir eu gwneud ar y safle neu o'r safle, ynghyd â'r amserau perthnasol:**

**Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:**
**Dydd Sadwrn: 11:00 tan 04:00**
**Dydd Sul: 11:00 tan 00:00**

**Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf dramâu, ffilmiau, adloniant bocsio neu reslo, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi'i recordio, perfformiadau o ddawns ac unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg (dan do ac yn yr awyr agored).**
**Dydd Sadwrn: 11:00 tan 04:00**
**Dydd Sul: 11:00 tan 00:00**

**Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (dan do ac yn yr awyr agored):**
**Dydd Sadwrn a Dydd Sul: 23:00 tan 05:00**

**Dwy awr ychwanegol i mewn i'r bore yn dilyn pob dydd Sadwrn a dydd Sul ar bob penwythnos Gŵyl Banc y Pasg, Gŵyl Banc Calan Mai, Gŵyl Banc y Gwanwyn / Sulgwyn a Gŵyl Banc mis Awst.**
**Estyniad o ddiwedd yr oriau a ganiateir ar Nos Galan i ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan bob blwyddyn.**
**Ar ôl rhoi 28 diwrnod o rybudd i Heddlu De Cymru, gofynnir am ddwy awr ychwanegol (tan 6am ddydd Sadwrn i fore Sul), gyda chadarnhad ysgrifenedig Heddlu De Cymru yn ofynnol cyn ei weithredu.** Nid yw hyn yn berthnasol mewn perthynas â Gwyliau Banc a Nos Galan fel uchod.

Gellir archwilio'r Gofrestr Drwyddedu yn yr Adran Drwyddedu, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW, rhwng 9.00am a 4.00pm (o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio yn ystod gwyliau cyhoeddus).
Rhaid i unrhyw sylwadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod neu mewn e-bost i trwyddedu@caerdydd.gov.uk erbyn 9 Mai 2024.

Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir ynglŷn â chais yn fwriadol neu'n ddi-hid, a gall hyn arwain at gollfarn ddiannod trwy ddirwy heb gyfyngiad.